



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

Dirprwy Bennaeth Fflyd a Pheirianeg Adran Fflyd a Pheirianeg

Pecyn Gwybodaeth Ymgeisydd

Cynnwys

Croeso gan Justin Evans, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol.....	3
Who we are.....	4
North Wales; A Place To Live, Work And Visit	6
Y Rôl	7
Beth allwn gynnig i chi.....	8
Disgrifiad Swydd	9
Gofynion person	13
Sgiliau yn yr Iaith Gymraeg.....	15
Llinell Amser Recriwtio	16
Sut i ymgeisio.....	16



Croeso gan Justin Evans, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol

Pan fydd pobl yn meddwl am y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw'n tueddu i feddwl am Ddiffoddwyr Tân yn ymateb i alwadau brys. Er bod hyn yn wir, mae'r swyddi a'r cyfrifoldebau o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn mynd yn llawer pellach na'r ddelwedd draddodiadol hon.

Yn ogystal â Diffoddwyr Tân, mae'r Gwasanaeth yn cyflogi pobl mewn nifer o wahanol swyddi amrywiol a heriol, ac mae'r gwaith hollbwysig sy'n cael ei wneud y tu ôl i'r llenni yr un mor hanfodol i helpu i wneud Gogledd Cymru yn lle mwy diogel i fyw ynddo, i weithio ynddo ac i ymweld ag ef.

Achub bywydau a lleihau risg sydd wrth wraidd ein cenhadaeth fel Gwasanaeth Tân ac Achub – ac mae ein hadran Fflyd a Pheirianeg yn hollbwysig i'n llwyddiant drwy ddarparu cefnogaeth hanfodol i'r Gwasanaeth. Mae'n sicrhau bod ein holl beiriannau, cerbydau ac offer tân yn cael eu cynnal a'u cadw'n ddiogel ac yn barod i'w defnyddio gan ein criwiau rheng flaen pan fo angen iddynt ymateb.

Mae ein hadran Fflyd a Pheirianeg yn rhan hanfodol o'r ffordd rydyn ni'n cyflawni ein gweithgareddau dyddiol. Drwy ddarparu'r adnoddau a'r offer ffisegol, mae'r

tîm Fflyd a Pheirianeg yn galluogi ein staff i ymgymryd â'u rôl o wneud Gogledd Cymru yn ardal ddiogel i fyw ynddi, gweithio ynddi ac ymweld â hi drwy sicrhau bod y peiriannau a'r offer yn addas i'r pwrpas ac yn ddiogel i'w defnyddio. Mae rôl tîm y Fflyd mewn gwasanaeth brys rheng flaen yn heriol, yn amrywiol ac yn gyffrous ac mae'n ymwneud â thasgau a chyfrifoldebau amrywiol, er mwyn sicrhau bod y Gwasanaeth yn gallu parhau i ddiogelu'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Ein gwerthoedd sylfaenol yw ymdrechu tuag at ragoriaeth, gwasanaethu cymunedau Gogledd Cymru a thrin pobl yn dda. Rydym ni eisiau i bobl sydd â'r un gwerthoedd ymuno â'n tîm i'n helpu ni i barhau i wneud Gogledd Cymru yn lle diogel i fyw ynddo, gweithio ynddo ac ymweld ag ef.



Who we are

Yng Ngwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru, ein pwrpas yw Atal, Amddiffyn ac Ymateb. I wneud hyn rydym yn cyflogi mwy na 850 o staff ym maes gweithredol a rolau cefnogi.

Rydym yn helpu i amddiffyn ardal sy'n gorchuddio tua 2,400 milltir sgwâr a poblogaeth breswyl o dros 700,000 o bobl, yn ogystal a channoedd o miloedd o ymwelwyr sy'n teithio i mewn ac allan o Ogledd Cymru bob blwyddyn.

Ar gyfartaledd, rydyn ni'n mynd i oddeutu 2,000 o danau a 1,000 o argyfyngau heblaw tan megis gwrthdrawiadau traffig ffyrdd a digwyddiadau llifogydd bob blwyddyn. Rydym hefyd yn mynychu tua 2,000 o alwadau brys sy'n troi allan i fod yn alwadau diangen.

Rydym yn gwneud gwaith atal tan helaeth trwy ymweld a phobl yn eu cartrefi, mynychu digwyddiadau, ymgysylltu a phlant a phobl ifanc, a gweithio gyda phartneriaid i addysgu a hysbysu cymunedau lleol. Rydym hefyd yn cynnal presenoldeb gweithredol yn y cyfryngau, gan gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol.


Mae rhan arall o'n gwaith mewn rol gorfodi diogelwch tan, felly rydyn ni'n ymweld busnesau a gweithleoedd i sicrhau bod y bobl sy'n gyfrifol amdan yr adeiladau hynny'n cadw eu trefniadau diogelwch tan i fyny i afon.

Mae Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru yn lle proffesiynol a chyfeillgar i weithio. Rydym yn cynnig diwylliant cefnogol lle rydym yn gweithio'n galed i gynnal ein gwerthoedd craidd.

Gallwch ddarllen mwy am ein Gwerthoedd Craidd ar y dudalen nesaf. I gael rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth ewch i [wefan Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru](http://www.tangogleddcymru.llyw.cymru).



Ein Gwerthoedd Craidd



North Wales; A Place To Live, Work And Visit

O fewn rhanbarth Gogledd Cymru mae Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn. Mae gan bob sir rywbeth arbennig i'w gynnig, p'un a ydych chi'n chwilio am gyffro ac antur neu ddiwylliant a threftadaeth. Mae byw a gweithio yng Ngogledd Cymru'n cynnig amgylchedd ardderchog i unrhyw un sy'n ceisio gwell ansawdd bywyd.

Mae gan yr ardal, sy'n cael ei hystyried yn un o'r lleoedd mwyaf prydferth yn y DU, lawer i'w gynnig. Gan ei bod yn ardal o dirwedd eithriadol sy'n amrywio o draethau tywod hir a phentiroedd trawiadol i ddyffrynnoedd cysgodol, rhosydd agored a mynyddoedd garw, mae yma rywbeth i bawb. Mae twristiaeth yn cyfrannu'n helaeth at yr economi leol, gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau ar draws y rhanbarth i ddenu gwahanol ymwelwyr i'r ardal bob blwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys llinellau sip cyffrous, parciau antur a chwaraeon dŵr, a theithiau cerdded mwy hamddenol i ddarganfod trefi a chefn gwlad yr ardal neu i ymweld â mannau hanesyddol a diwylliannol, gan gynnwys cestyll.

Mae Gogledd Cymru yn agos at natur ac yn cynnig digon o le awyr agored, ond mae hefyd o fewn cyrraedd i fwrlwm a phrysurdeb trefi a dinasoedd mawr Gogledd-orllewin Lloegr, fel Caer, Lerpwl a Manceinion.

Mae'r cysylltiadau rheilffordd hefyd yn cysylltu arfordir Gogledd Cymru â dinasoedd mawr ar draws y DU, gyda threnau uniongyrchol yn mynd i Lundain (o fewn 3 – 4 awr), Birmingham a Manceinion ymysg eraill.

Mae bwyd a diod yn rhan bwysig o ddiwylliant Cymru gyda gwyliau bwyd a marchnadoedd yn digwydd ledled y rhanbarth i arddangos y bwydydd a'r diodydd gorau sydd gan Gymru i'w cynnig. Gan ddefnyddio cynnyrch lleol a thymhorol, o bysgod newydd eu dal i gig oen tyner lleol, caws, gwin, cwrw a jin, mae yma ddigonedd o leoedd bwyta at ddant pawb. Mae'r ardal yn cynnig bwyta bwyd cain, tafarndai gastro a bistros yn ogystal â thafarndai cefn gwlad, ystafelloedd te a chaffis.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae gan Gymru boblogaeth o ychydig dros 3.1 miliwn, gyda thua 18% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r Cymry'n angerddol am yr iaith, chwaraeon a diwylliant ac mae cystadlaethau cerddoriaeth, barddoniaeth a chelfyddyd yn digwydd yn flynyddol – sef yr Eisteddfodau. Gwyliau diwylliannol ydyn nhw sy'n cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn darparu llwyfan cenedlaethol ar gyfer cerddoriaeth, dawn, llenyddiaeth, celfyddydau gweledol a pherfformio. Er bod y Gymraeg yn rhan bwysig o'r Eisteddfod, mae'r digwyddiadau'n agored i bawb ac felly nid oes rhaid i chi fod yn siaradwr Cymraeg i'w mynychu a'i mwynhau. Bydd pobl o bob oed a gallu, a dysgwyr Cymraeg, yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn Eisteddfodau, gydag Eisteddfod Ryngwladol Llangollen yn cael ei chynnal bob blwyddyn ar ddechrau Awst. Mae hon yn dod â phobl o bob cwr o'r byd at ei gilydd i ddathlu'r gwahanol ddiwylliannau, cerddoriaeth a chelfyddydau mewn un lle.



Y RÔL

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru mae pawb yn cyfrannu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd i helpu i warchod ein cymunedau a'r amgylchedd naturiol. Mae darparu'r offer a'r cerbydau priodol i'n staff er mwyn iddyn nhw ymgymryd â'u dyletswyddau yn hanfodol er mwyn ein galluogi i ddarparu gwasanaeth brys a rhagweithiol effeithiol.

Mae'r Adran Fflyd a Pheirianeg wedi'i lleoli yn ein gweithdai Fflyd yng Nghyffordd Llandudno, ond maent yn darparu gwasanaethau cefnogi mecanyddol a pheirianyddol i'n holl orsafoedd tân ledled Gogledd Cymru. Prif gyfrifoldebau'r adran yw cynllunio, prynu, cynnal a chadw ac atgyweirio fflyd y Gwasanaeth o 131 o gerbydau ymateb brys ac 158 o gerbydau cymorth yn ogystal â'r offer cysylltiedig sy'n ofynnol gan wasanaeth tân ac achub, megis ysgolion, offer peirianyddol ac achub sy'n dod i gyfanswm o 2145 o asedau.

Bydd y rôl allweddol hon yn cynorthwyo'r Pennaeth Fflyd a Pheirianeg mewn ystod eang o weithgareddau Rheoli Fflyd a Pheirianeg, datblygu polisi a dirprwyo lle bo hynny'n briodol / pan fo angen. Rydym yn chwilio am berson ymroddedig, angerddol i greu a datblygu tîm ymgysylltiol a llawn cymhelliant trwy ddarparu arweinyddiaeth gadarnhaol, ysbrydoledig a gweladwy iawn.

Byddwch yn goruchwyllo'r gwaith o reoli caffael cerbydau ysgafn a cherbydau System Dyletswydd Flexi, Pennaeth Cefnogi Adran wrth bennu cyllideb yn y dyfodol, cynllunio o fewn paramedrau cyllideb presennol, gan nodi gwerthusiadau cerbydau, nodi mathau o gerbydau i'w hystyried, cysylltu ag adeiladwyr cerbydau wrth osod systemau diogelwch a cherbydau gwell fel teledu cylch cyfyng ac offer mewnlol.

Cefnogi'r Pennaeth Fflyd a Pheirianeg mewn cyfrifoldeb goruchwyllo ar gyfer Goruchwylwyr Technegol y Fflyd a Pheirianeg, gan sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau Goruchwyllo Fflyd a Pheirianeg bob amser. Mae hyn yn cynnwys rheoli absenoldeb, nodi anghenion hyfforddi staff, hyrwyddo hyfforddiant mewnlol a rhannu gwybodaeth a chysylltu â'r Pennaeth Fflyd a Pheirianeg i sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu diwallu.

Bydd gan ddeiliad y swydd gyfrifoldeb cyffredinol am lefelau cynhyrchiant Adrannau Fflyd, gan gynnwys ffigurau amser segur, asesiadau risg a dangosyddion perfformiad a gweithredu unrhyw welliannau a nodwyd.

Sicrhau bod ymddygiad/perfformiad staff yn cael ei gynnal i'r lefel sy'n ofynnol gan y Gwasanaeth a'r Pennaeth Fflyd a Pheirianeg, a bod unrhyw fethiant i gyflawni'r lefel ofynnol yn cael ei reoli'n gywir trwy gysylltu â'r Goruchwylwyr Technegol Fflyd a Pheirianeg.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfathrebwr da, gyda phrofiad blaenorol o reoli staff. Bydd gennych brofiad blaenorol mewn amgylchedd gweithdy/rheolaeth (goruchwyllo o leiaf 2 flynedd) a bydd gennych brofiad o reolaeth Cyllidebol.



Beth allwn gynnig i chi

Tâl

Cyflog: Gradd 10 Cychwyn ar £48,738 y flwyddyn , gan godi i £51,928 y flwyddyn, ar sail cynnydd blynyddol

Oriau gwaith

Byddwch yn gweithio 37 awr yr wythnos o ddydd Llun i ddydd Gwener ond rydym yn cynnig cryn dipyn o hyblygrwydd a cheisiwn gefnogi staff i gydbwysu eu bywyd gwaith a chartref. Yn ddiweddar, rydym wedi cyflwyno polisi gweithio hyblyg i hyrwyddo gweithio rhithiol ac yn y cartref lle bo'n ymarferol.

Lleoliad gwaith

Mae'r tîm wedi'i leoli yn yr Adran Fflyd a Pheirianneg yng Nghyffordd Llandudno. Bydd y rôl hefyd yn gofyn am deithio i wahanol leoliadau'r Gwasanaeth Tân ac Achub a safleoedd eraill ledled Gogledd Cymru. Ar adegau, efallai y bydd angen teithio y tu allan i Ogledd Cymru hefyd, er enghraifft, i fynychu lleoliadau hyfforddi, cwrdd â chyflenwyr neu oruchwylio contractwyr.

Buddion cyflogaeth

- Hawl am Wyliau Blynyddol hael, yn cychwyn ar 25 diwrnod y flwyddyn, yn ogystal a gwyliau cenedlaethol
- Darperir gwisg Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Mynediad i gyfraniad gweithwyr o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Byddwn yn cynnig hyfforddiant, cefnogaeth ac arweiniad i ddatblygu eich potensial
- Cefnogaeth iechyd, ffitrwydd a lles, yn cynnwys iechyd galwedigaethol, cefnogaeth cydweithiwr, hyrwyddwyr iechyd meddwl, therapyddion corfforol a mynediad i gampfeydd y Gwasanaeth
- Ystod o fuddion eraill megis cynllun beicio i'r gwaith a mynediad i bris gostyngol mewn cannoedd o siopau, hamdden a darparwyr gwasanaethau.

Disgrifiad Swydd

Teitl Swydd	Dirprwy Bennaeth Fflyd a Pheirianeg
Adran	Fflyd
Yn Atebol i	Pennaeth Fflyd a Pheirianeg

Diben y Swydd yn Gyffredinol

Cynorthwyo Pennaeth y Fflyd a Pheirianeg mewn ystod eang o weithgareddau rheoli'r gwasanaethau Peirianeg a'r Fflyd ac o ran datbly-gu polisi a dirprwyo lle bo hynny'n briodol / pan fo angen.

Y Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

1. Goruchwylio'r gwaith o reoli caffael cerbydau Ysgafn a cherbydau'r System Dyletswydd Hyblyg, cefnogi Pennaeth yr Adran wrth bennu cyllideb y dyfodol, cynllunio o fewn ffiniau presennol y gyllideb, nodi gwerthusiadau cerbydau, nodi mathau o gerbydau i'w hystyried, cysylltu ag adeiladwyr cerbydau am osod systemau diogelwch cerbydau a systemau ychwanegol, megis CCTV a chyfarpar y tu mewn i'r cerbyd.
2. Datblygu a chynnal polisiau rheoli asedau i sicrhau bod systemau ar waith er mwyn cynnal cronfa ddata i'r profion diogelwch, y cofnodion cynnal a chadw a'r profion a argymhellir gan wneuthurwyr ar gyfer asedau'r Gwasanaeth.
3. Cyfrifoldeb goruchwylio dros Oruchwylwyr Technegol y Fflyd a Pheirianeg, gan sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau goruchwylio'r adran Fflyd a Pheirianeg bob amser. Mae hyn yn cynnwys rheoli absenoldeb, nodi anghenion hyfforddi staff, hyrwyddo hyfforddiant mewnol a rhannu gwybodaeth a chysylltu â'r Pennaeth Fflyd a Pheirianeg i sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu bodloni.
4. Cefnogi, nodi a hyrwyddo safonau diogelwch y Gwasanaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod diogelwch effeithiol yn cael ei weithredu bob amser mewn perthynas â cherbydau, staff, contractwyr ac ymwelwyr.
5. Bod mewn cysylltiad â'r Adran Iechyd a Diogelwch a sicrhau bod unrhyw welliannau neu newidiadau deddfwriaeth a nodwyd yn cael eu gweithredu cyn gynted â phosibl. Sicrhau bod yr Adran Iechyd a Diogelwch yn cael gwybod am unrhyw feysydd sy'n peri pryder neu adolygiad sy'n ofynnol mewn

perthynas â cherbydau'r Fflyd a chytuno ar gynllun gweithredu i fynd i'r afael â nhw.

6. Yn gyfrifol am oruchwylio systemau ar gyfer diogelwch staff, contractwyr ac ymwelwyr.
7. Cynnal cyfrifoldeb cyffredinol am arolygiadau Sicrwydd Ansawdd oddi ar y safle o ran cyflwr cerbydau ac asedau, ansawdd mewn cofnodi diffygion, safonau cyflwr asedau, cerbydau ac offer a gweithredu unrhyw welliannau. Goruchwylio arolygiadau Sicrwydd Ansawdd annibynnol, adrodd a briffio'r Pennaeth Fflyd a Pheirianeg a chyflwyno adroddiadau Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI) ar ganfyddiadau.
8. Cynorthwyo'r Adran Iechyd a Diogelwch mewn perthynas ag ymchwilio i ddamweiniau neu ymchwilio i fethiant cydrannau a'u hadrodd i'r Pennaeth Fflyd a Pheirianeg, ynghyd ag unrhyw gasgliadau ac argymhellion.
9. Bydd gan ddeiliad y swydd gyfrifoldeb cyffredinol am lefelau cynhyrchiant yr Adran Fflyd, gan gynnwys ffigurau amser segur, asesiadau risg a dangosyddion perfformiad a gweithredu unrhyw welliannau a nodwyd. Sicrhau bod ymddygiad/perfformiad staff yn cael eu cynnal i'r lefel sy'n ofynnol gan y Gwasanaeth a'r Pennaeth Fflyd a Pheirianeg, a rheoli unrhyw fethiant i gyrraedd y lefel ofynnol yn gywir trwy gysylltu â'r Goruchwylwyr Technegol Fflyd a Pheirianeg.
10. Sicrhau bod system effeithiol ar waith ar gyfer rheoli cynnyrch gwastraff yn unol â rheoliadau amgylcheddol. Parhau i ddatblygu system ar gyfer gwella hyn drwy leihau allbwn gwastraff.
11. Dylunio ac adeiladu system effeithiol ar gyfer monitro ynni/defnydd o adnoddau yn y gweithdy a mynd ati i chwilio am ddulliau o'u lleihau er mwyn bod yn gost effeithiol a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd, er enghraifft, Sero Net.
12. Yn dilyn gweithdrefnau i waredu cerbydau ac offer y Gwasanaeth nad ydynt yn cael eu defnyddio ddim mwy, mynd i ganolfannau trin awdurdodedig i weld a chofnodi proses ailgylchu'r cerbydau a pharhau i ddatblygu system i fodloni diogelwch, archwilio, dyletswydd gofal amgylcheddol a gofynion diogelwch. Cysylltu â'r adran Cyllid i sicrhau bod yr holl arian a dderbynnir yn cael ei gofnodi yn unol â rheolau sefydlog y Gwasanaeth Tân ac Achub.
13. Rheoli yswiriant ceir prydles a cheir a berchnogir. Goruchwylio gweinyddiaeth a sicrhau bod system atgyweirio effeithiol ar waith. Ymgysylltu â'r darparwr yswiriant a'u harolygwyr enwebedig. Cyfarwyddo a goruchwylio peirianwyr o ran hawliadau yswiriant ac agweddau ar atgyweirio.
14. Cynorthwyo'r Adran Iechyd a Diogelwch i gael mynediad at wybodaeth o deledu cylch cyfyng a'r data sydd wedi ei gofnodi ar ôl digwyddiad ac wrth samplu Sicrwydd Ansawdd. Rheoli ceisiadau am wybodaeth i gefnogi ymchwiliadau i ddigwyddiadau o fewn disgwyliadau'r Comisiynwyr Diogelu Data a Gwybodaeth.

15. Cynorthwyo a chynghori'r ddesg contractau llogi mewn perthynas â chyfathrebu ynghylch ceir prydles swyddogion, gosod offer rhybuddio clywedol a gweledol ynddynt a chynnal a chadw. Sicrhau bod system gadarn ar waith ar gyfer rheoli'r broses o ddychwelyd ac adnewyddu contractau llogi.
16. Yn gyfrifol am roi cyngor ac arweiniad i'r staff Fflyd a Pheirianeg mewn perthynas â cherbydau gwasanaeth yn torri i lawr, lle bo angen.
17. Cysylltu â chontractwyr allanol a phenderfynu ar eu gallu i wneud gwaith o ran costeffeithiolrwydd/ansawdd gwaith.
18. Cyfrifoldeb cyffredinol dros gofnodion swydd a sicrhau bod system gyfrifiadurol rheoli'r fflyd yn 'fyw,' yn cael ei chynnal a'i diweddarau. Cysylltu â staff yr Adran a'r adran TG i wella a datblygu system rheoli fflyd lle bo angen.
19. Cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod amserlen cynnal a chadw effeithiol ar waith lle mae amserlen ddigon cyson yn ei lle i sicrhau bod cerbydau ac offer yn cydymffurfio â rheoliadau statudol.
20. Sicrhau bod system effeithiol ar waith a goruchwyllo'r system i gydymffurfio â rheolau treth cerbyd.
21. Monitro a goruchwyllo diffygion dyddiol o'r Ystafell Reoli a dyrannu gwaith yn unol â lefelau gwaith, categori atgyweirio a faint o frys sydd, yn absenoldeb Goruchwylwyr y Gweithdy.
22. Cysylltu â'r adran Gyllid o ran ymholiadau am anfonebau, cadarnhad o'r nwyddau a'r gwasanaethau a dderbyniwyd/codi a chael sieciau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau, llofnodi copïau archebion, awdurdodi materion stoc storfeydd i'r lefel llofnodwr y cytunwyd arni.
23. Rheoli recriwtio personél ar gyfer eu cyflogi o fewn yr Adran gan ddilyn y weithdrefn gywir fel y penderfynir gan yr Adran Adnoddau Dynol.
24. Cynorthwyo'r Pennaeth Fflyd a Pheirianeg ar brosiectau yn ôl yr angen.
25. Unrhyw ddyletswyddau eraill fel a gyfarwyddir gan y Pennaeth Fflyd a Pheirianeg gan gynnwys cynhyrchu adroddiadau amrywiol, ymgymryd â thasgau untro, delio â galwadau ffôn a mynd i gyfarfodydd yn eu habsenoldeb ac ati.

Cyfrifoldeb Goruchwyllo

Goruchwylwyr Technegol Fflyd a Pheirianeg a chyfrifoldeb anuniongyr-chol am yr Adran Fflyd a Gwasanaethau Peirianeg.

Cyfrifoldeb Ariannol

£50,000

Cysylltiadau y tu Allan i'w Adran ei Hun

Asiantaethau Partner, Contractwyr, Cyflenwyr Rhannau ac, yn anaml, aelodau'r cyhoedd.

Gofynion Iaith

Mae Lefel 2 Cymraeg – Llafar a Gwrando (i'w gyflawni o fewn 12 mis prawf) – yn gofyn eich bod yn gallu:

Deall hanfod sgysiau yn y gwaith. Ymateb i geisiadau syml sy'n gy-sylltiedig â'r swydd a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol. Gofyn cwesti-

ynau syml a deall ymatebion syml. Mynegi barn mewn ffordd gyfyngedig cyn belled â bod y pwnc yn gyfarwydd. Deall cyfarwyddiadau pan fydd iaith syml yn cael ei defnyddio.

Gwiriadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol

DBS Arferol

Hyfforddiant Gorfodol

NEBOSH

ILM Lefel 5 a CPC Swyddog Trafnidiaeth

Arall

Gweithio dan do mewn amgylchedd gweithdy/swyddfa ac yn yr awyr agored ar ymweliadau â gorsafoedd a galwadau allan. Efallai y bydd gofyn i ddeiliad y swydd godi eitemau trwm ar adegau, gweithio mewn baw neu lwch a gweithredu ym mhob tywydd.

Gofynion person

Cymwysterau, Gallu a Profiad

Hanfodol

Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt

Lefel 3 cynnal a chadw ac atgyweirio cerbydau modur.

Profiad blaenorol o reoli staff.

Profiad blaenorol mewn amgylchedd gweithdy / rheoli (goruchwyllo o leiaf 2 flynedd).

Ymwybyddiaeth gyfrifiadurol a gwybodaeth am becynnau meddalwedd/taenlenni.

Profiad o reoli cyllidebau o fewn amgylchedd sefydliadol..

NEBOSH (gweler y meini prawf dymunol isod am ragor o wybodaeth)

Rheolwr Trafnidiaeth CPC (gweler y meini prawf dymunol isod am ragor o wybodaeth)

Dewisol

Nodweddion ychwanegol y gellir eu defnyddio i ddewis rhwng ymgeiswyr sy'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol

Trwydded yrru LGV.

ILM Lefel 5,cymhwyster cyfatebol, neu dystiolaeth o brofiad cyfatebol.

NEBOSH - Yn barod i gael o fewn y cyfnod prawf os nad yw'n cael ei gynnal ar hyn o bryd

Rheolwr Trafnidiaeth CPC - yn barod i gael TMCPD o fewn cyfnod prawf os nad yw'n cael ei gynnal ar hyn o bryd

Sgiliau

Hanfodol

Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt

Y gallu i weithio ar eich liwt eich hun a heb oruchwyliaeth.

Sgiliau cyfathrebu da ar lafar ac yn electronig.

Y gallu i werthuso costau ar job.

Cymraeg Lefel 2

Dewisol

Nodweddion ychwanegol y gellir eu defnyddio i ddewis rhwng ymgeiswyr sy'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol

Y gallu i gyfathrebu'n rhugl yn Gymraeg

*Gofynnir am dystiolaeth o gymwysterau a'u gwirio cyn cadarnhau penodiad

Nodwch: Er mwyn cyrraedd y rhestr fer ar gyfer y swydd hon bydd angen i chi ddangos eich bod yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol

Sgiliau yn yr Iaith Gymraeg

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, rydym yn credu y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.

Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod ni wedi cymryd y mater o iaith o ddifrif dros flynyddoedd lawer. Drwy gydnabod ein dyletswyddau moesol a chyfreithiol i ddiogelu treftadaeth ddiwylliannol yr ardal ac i fodloni disgwyliadau'r gymuned leol, rydym yn cydnabod y manteision cadarnhaol i'r gwasanaeth hefyd o gynnal ein busnes cyhoeddus yn y ddwy iaith. Mae achub bywydau a lleihau risg wrth wraidd ein cenhadaeth – ac mae iaith yn hanfodol i'w lwyddiant.

Mae gofyniad Cymraeg y swydd hon yn lefel 2 ac mae'r sgiliau gofynnol wedi'u nodi isod.

Maes Sgil	Gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg
Gwranddo / siarad	• Ddeall rhan helaeth o sgwrs yn y gwaith. • Ymateb i geisiadau syml yn ymwneud â'r gwaith a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol. Gofyn cwestiynau syml a deall atebion. • Rhoi barn mewn modd cyfyngedig, cyn belled â bod y testun yn gyfarwydd. • Deall cyfarwyddiadau pan fo iaith syml yn cael ei defnyddio.

Bydd asesiad byr Cymraeg yn cael ei wneud ar gychwyn eich cyflogaeth ac yna bydd ymgeiswyr sydd is na'r gofyniad o lefel 2 Cymraeg yn cael 12 mis ar ôl eu penodiad i cyflawni hyn.

Rydym yn cydweld bod dysgu iaith yn cymryd amser a bydd yn ymrwymiad ar ben eich rôl a byddwn yn eich cefnogi yn y broses.



Llinell Amser Recriwtio

Gweithgaredd Recriwtio	Dyddiad
Dyddiad cau	12:00 ar 11/08/25
Disgwylir i'r cyfweiliadau gael eu cynnal	Wythnos yn dechrau 02/11/2026

Sut i ymgeisio

I wneud cais am y swydd hon, rhaid i bob ymgeisydd lenwi ein ffurflen gais i gael eu hystyried. Mae'r ffurflen gais i'w gweld ar dudalen [Swyddi Gwag Cyfredol](#) ein gwefan a dylid cyflwyno ffurflenni wedi'u llenwi drwy e-bost i recriwtio@tangogleddcymru.llyw.cymru

Peidiwch â chyflwyno'ch CV gyda'r Ffurflen Gais, gan mai dim ond y wybodaeth a ddarperir yn y Ffurflen Gais fydd yn cael ei defnyddio ar y rhestr fer.

Wrth gwblhau eich cais, bydd angen i chi ddangos eich bod yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol fel y manylir yn y fanyleb person. Ymgyfarwyddwch â'r disgrifiad swydd a'r fanyleb person yn y pecyn gwybodaeth hwn fel eich bod yn deall y cymwysterau, y sgiliau a'r priodoleddau hanfodol ar gyfer y rôl. Mae p'un a ydych ar y rhestr fer ar gyfer cyfweiliad yn seiliedig ar y wybodaeth rydych chi'n ei darparu yn eich ffurflen gais.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi gwybod i ni mewn da bryd os hoffech i ni wneud unrhyw addasiadau rhesymol i chi.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyflwyno'ch cais cyn y dyddiad cau gan na fydd ceisiadau hwyr yn cael eu derbyn.

Os ydych chi'n cael unrhyw broblemau wrth gyrchu neu lenwi'r ffurflen gais, cysylltwch â'r tîm Recriwtio: recriwtio@tangogleddcymru.llyw.cymru neu ffoniwch 01745 535 281

Deallusrwydd Artiffisial (AI)

Rydym yn cydnabod y gall ymgeiswyr ddefnyddio offer AI neu adnoddau eraill yn ystod y broses ymgeisio. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod yr holl wybodaeth rydych chi'n ei gyflwyno yn ffeithiol gywir, yn wir, ac yn gyfan gwbl eich gwaith eich hun. Dylai eich cais adlewyrchu eich profiadau, eich syniadau a'ch llais eich hun i sicrhau ei fod yn ddilys ac yn gredadwy.

Sylwch y gellir gwrthod ceisiadau os oes tystiolaeth o lèn-ladrad (plagiarism) neu or-ddibyniaeth ar gynnwys a gynhyrchir gan AI. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno syniadau, profiadau, neu ddeunydd a grëwyd gan eraill, neu gan ddeallusrwydd artiffisial, fel eich un chi.

Os cewch eich gwahodd i gyf weld, byddwch yn ymwybodol bod defnyddio offer AI wedi'i wahardd yn llwyr, gan gynnwys at ddibenion fel trawsgrifio, recordio, neu gymryd nodiadau. Gall unrhyw ddefnydd amheuol o offer o'r fath arwain at derfynu eich cyfweiliad a'ch tynnu'n ôl o'r broses recriwtio.

Gwybodaeth bellach

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r rôl hon neu os hoffech sgwrs anffurfiol cyn ymgeisio, mae croeso i chi gysylltu a Geraint Jones, Pennaeth Fflyd a Pheirianeg ar 01492 562316 neu geraint.jones@tangogleddcymru.llyw.cymru.

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac mae ceisiadau yn cael eu hannog gan unigolion waeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r naill iaith ac yn ymateb yn eich iaith ddewisol heb oedi. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Mae apwyntiadau yn destun gwiriad Hawl i Waith dilys, geirdaon boddhaol, prawf Cyffuriau ac Alcohol, a chwblhau gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Sylwch y bydd y gwiriad DBS yn datgelu euogfarnau neu rybuddion wedi'u treulio a'u gwario.